Gwybodfan
Celf
y DU

# Ymweld â'r DU

Canllaw fisa ar gyfer artistiaid rhyngwladol a phobl greadigol broffesiynol

# Croeso i Ganllaw Fisa Gwybodfan Celf y DU

[Fersiwn wedi'i ddiweddaru Rhagfyr 2021]

Cafodd y canllaw canlynol ei ddatblygu fel adnodd er mwyn helpu sefydliadau ac unigolion i ddeall yr opsiynau fisa gwahanol sydd ar gael wrth drefnu ymweliad â'r DU at ddibenion gwaith. Bwriad y canllaw yw helpu sefydliadau, cyrff y sector creadigol, ac artistiaid a phobl greadigol proffesiynol yn y DU ac yn rhyngwladol, sy'n trefnu ymweliad â'r DU at ddibenion gwaith ar hyn o bryd.

Mae llawer o wybodaeth am fisâu i'w hystyried, ac mae llawer o opsiynau ar gael yn ddibynnol ar ffactorau gwahanol fel, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- eich cenedligrwydd
- y wlad yr ydych yn teithio ohoni
- y fath o waith yr ydych yn bwriadu ei wneud yn y DU
- y faint o amser yr ydych yn bwriadu ei wario yn y DU
- os ydych am gael eich talu am y gwaith hwnnw

Oherwydd y cymhlethdod hwn, cafodd y canllaw hwn ei ddrafftio gan arbenigwyr cyfreithiol, dan arweiniad gwybodaeth swyddogol Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau bod y canllaw yn gywir ar adeg ei argraffu. Mae'r iaith a ddefnyddir yn y canllaw yma yn unol â therminoleg y byddwch yn dod ar ei thraws wrth ddefnyddio'r system fisa, ac yn deillio o wybodaeth swyddogol megis gwefannau'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth y DU. Yn bennaf, nid yw'r wybodaeth ar wefan Llywodraeth y DU ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly rydym wedi cynnwys rhai acronymau sy'n adlewyrchu'r derminoleg Saesneg i'ch helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol ar y gwefannau hyn. Gallwch ddod o hyd i restr o ddiffiniadau, acronymau a chyfieithiadau tua diwedd y canllaw hwn a all eich helpu i ddeall rhywfaint o'r derminoleg hon.

Ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig.

Fodd bynnag, ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig. Rydym yn bwriadu adolygu'r canllaw hwn pob 6 mis, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwn yn gyfredol. Nodir dyddiad y cafodd y canllaw ei ddiweddaru ar gychwyn y tudalen yma, wrth ymyl 'Fersiwn wedi'i diweddaru'.

Trwy gydol y canllaw hwn, rydym yn cyfeirio at dudalennau perthnasol ar wefan Llywodraeth y DU gan fod adnoddau pellach ar gael i'w ddarllen ar bynciau penodol. Mae'n bosibl na fydd yr holl wybodaeth yn y canllaw hwn yn berthnasol i'ch sefyllfa chi, ac rydym wedi cynnwys botymau ar rai tudalennau er mwyn eich tywys i'r tudalen perthnasol nesaf.

Mae dolenni'n edrych fel hyn : Blwch glas golau a thestun pinc wedi'i danlinell

Mae botymau'n edrych fel hyn: blwch gwyrddlas a thestun gwyn

Fodd bynnag, rydym yn eich argymell i ystyried yr holl wybodaeth yn y canllaw hwn, er mwyn ystyried pob opsiwn fisa sydd ar gael i chi. Mae'r argymhelliad hwn yn arbennig o bwysig os ydych yn trefnu ymweliad creadigol gyda mwy nag un unigolyn yn teithio i'r DU, lle na fydd un opsiwn fisa ar gyfer pawb yr  opsiwn gorau i bawb.

Nod y canllaw hwn yw bod yn adnodd defnyddiol ac ymarferol ar gyfer amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sy'n gweithio ar draws y sector celfyddydol, a chroesawn adborth ar unrhyw adeg. Anfonwch eich adborth trwy e-bost at infopoint@wai.org.uk.

Crëwyd cyhoeddiad gwreiddiol y canllaw hwn ar gyfer Gywbodfan Celf y DU gan Tamizdat mewn cydweithrediad â Latitude Law a Newfields Law.

# Cynnwys

Mae'r canllaw hwn yn tynnu sylw at yr holl opsiynau fisa sydd ar gael i'r rhai sy'n cynllunio ymweliad creadigol â'r DU. Bydd rhai ffactorau'n effeithio ar yr opsiynau sydd ar gael i chi, ac rydym wedi grwpio'r wybodaeth yn ôl statws cenedligrwydd fisa, y math o waith rydych yn bwriadu ei wneud tra yn y DU (am dâl am dâl neu ddi-dâl), a hyd eich arhosiad (tymor byr, hir dymor, byw yn y DU). Er efallai eich bod eisoes yn gwybod pa rai o'r ffactorau hyn sy'n berthnasol i'ch sefyllfa, rydym yn argymell eich bod yn ystyried yr holl wybodaeth a'r opsiynau sydd ar gael i chi yn y canllaw hwn.


Ydw i'n Wladolyn Fisa neu wladolyn Heb Fod Angen Fisa? 6

Dyma'r cam cyntaf i ddeall pa opsiynau fisa sydd ar gael i chi. Yn yr adran hon rydym yn edrych ar sut y caiff cenhedloedd eu diffinio gan Lywodraeth y DU a sut mae eich cenedligrwydd yn effeithio ar yr angen i chi wneud cais am fisa cyn dod i'r DU.

Gweithgaredd Di-Dâl: Rydw i'n teithio i'r DU fel ymwelydd - a oes modd cyflawni unrhyw weithgaredd di-dâl? 8

Ymweld â'r DU fel 'Ymwelydd Arferol' gan gynnwys rhai o'r gweithgareddau di-dâl cyfyngedig y caniateir i weithwyr creadigol proffesiynol eu gwneud fel ymwelydd â'r DU.

Trosolwg o Weithgaredd Am Dâl 12

# Cynnwys

Gweithgaredd Am Dâl: Rydw i'n bwriadu bod yn y DU ar gyfer digwyddiad untro neu ar gyfer gwaith tymor byr – beth yw fy opsiynau? 13

Yr opsiynau fisa sydd ar gael i weithwyr creadigol proffesiynol sydd am weithio yn y DU am gyfnod byr o amser (fel arfer 1-3 mis ac opsiynau cyfyngedig ar gyfer gwaith hyd at 6 mis).

Gweithgaredd Am Dâl: Rydw i'n bwriadu bod yn y DU ar gyfer gwaith yn yr hir dymor – beth yw fy opsiynau? 27

Pa fisâu ac opsiynau nawdd sy'n caniatáu i weithwyr creadigol proffesiynol fod yn y DU ar gyfer gwaith am dâl hir dymor, gan gynnwys y meini prawf cymhwyster a sut i wneud cais.

Rydw i'n bwriadu symud i fyw i'r DU i fyw a gweithio – beth yw fy opsiynau? 36

Yr opsiynau nawdd ar gyfer gweithwyr creadigol proffesiynol a hoffai dreulio cyfnod hir yn byw ac yn gweithio yn y DU.

Diffiniadau, acronymau a chyfieithiadau 38

Rhestr o derminoleg a ddefnyddir yn y canllaw a'r hyn y maent yn ei olygu, gan gynnwys acronymau a ddefnyddir yn gyffredin y gallech ddod ar eu traws wrth lywio system Mewnfudo'r DU.

Ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig.

# Ydw i'n Wladolyn Fisa neu Wladolyn Heb Fod Angen Fisa?

Dyma'r cam cyntaf i ddeall pa opsiynau fisa sydd ar gael i chi. Yn yr adran hon rydym yn edrych ar sut y caiff cenhedloedd eu diffinio gan Lywodraeth y DU a sut mae eich cenedligrwydd yn effeithio ar yr angen i chi wneud cais am fisa cyn dod i'r DU.

Mae cyfraith y DU yn dosbarthu dinasyddion gwledydd eraill mewn i ddau ddosbarth: 'Gwladolion Fisa' a 'Gwladolion Heb Fod Angen Fisa.' Er mwyn deall sut mae'r gyfraith yn berthnasol i chi, mae angen i chi wybod p'un un ydych chi.

## Gwladolyn Fisa

Dyma wladolion tramor sy'n gorfod cael fisa cyn dod i'r DU am unrhyw reswm.

Mae'r Rhestr Gwladolyn Fisa yn cynnwys nifer o wledydd yn Affrica, America Ladin, y Dwyrain Canol ac Asia. Rhaid i Wladolion Fisa sy'n artistiaid perfformio gael rhyw fath o fisa bob tro cyn teithio i'r DU. Mae'r math o fisa y bydd ei angen arnyn nhw yn cael ei benderfynu gan yr hyn fyddan nhw'n ei wneud tra eu bod yn y DU.

Gweler rhestr o wledydd Gwladolion Fisa yma:
Rheolau Mewnfudo: Rhestr Gwladolion Fisa

## Gwladolyn Heb Fod Angen Fisa

Gwladolion tramor yw'r rhain nad oes angen cael fisa cyn dod i'r DU ar gyfer twristiaeth neu weithgareddau proffesiynol cyfyngedig.

Mae gwledydd sydd Heb Fod Angen Fisa yn cynnwys Awstralia, Canada, Siapan, Seland Newydd, Singapore, De Corea a'r UDA ymhlith eraill. Ers 1 Ionawr 2021, mae dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (EU), Ardal Economaidd Ewrop (EEA), a'r Swistir yn cael eu dosbarthu fel 'Gwladolion Heb Fod Angen Fisa'. Heblaw am rai eithriadau cyfyng, bydd angen i Wladolion Heb fod angen Fisa sy'n artistiaid perfformio gael fisa cyflogaeth cyn dod i'r DU i berfformio, ac mae'r math o fisâu bydd ei angen arnoch yn cael ei benderfynu gan yr hyn a wnewch tra boch yn y DU.

Ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig.

# Ydw i'n Wladolyn Fisa neu Wladolyn Heb Fod Angen Fisa?

## Yr Ardal Deithio Gyffredin

Mae cytundeb ar wahân rhwng y DU, Iwerddon ac ynysoedd Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw a elwir yn Ardal Deithio Gyffredin (CTA). Mae'n drefniant ers sbel sy'n rhagddyddio aelodaeth Prydain ac Iwerddon o'r EU ac mae'n gytundeb annibynnol.
Drwy gydol y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at yr Ardal Deithio Gyffredin a'i herthyglau, a sut maent yn berthnasol i'r rhai sy'n teithio i'r DU drwy Iwerddon. Mae hyn oherwydd bod rheolau ychwanegol yn bodoli y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt.
**Nid oes angen fisa** ar ddinasyddion Gwyddelig i fyw a gweithio yn y DU. O dan yr CTA, gall dinasyddion Prydeinig ac Iwerddon symud yn rhydd a byw yn y naill wlad neu'r llall, a chael hawliau a breintiau cysylltiedig, gan gynnwys yr hawl i weithio, astudio a phleidleisio mewn rhai etholiadau, yn ogystal â chael budd-daliadau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd.

Dysgwch fwy am yr Ardal Deithio Gyffredin yma:
Canllaw'r Ardal Deithio Gyffredin mon Travel Area Guidance

Gan gadw mewn cof p'un ai ydych yn Wladolyn Fisa neu'n Wladolyn Heb Fod Angen Fisa, dewiswch y sefyllfa ganlynol sy'n disgrifio'r orau'r hyn yr hoffech ei wneud yn y Deyrnas Unedig:

### Gweithgareddau Di-Dâl

Mae angen i mi deithio i'r DU i gael cyfarfodydd, rhoi perfformiadau hyrwyddo di-dâl, neu wneud gwaith di-dâl

### Gweithgareddau Am Dâl

Rydw i'n artist perfformio, ac mae angen i mi deithio i'r DU i berfformio, cael fy nhalu, a gadael.

### Byw yn y DU

Mae angen i mi deithio i'r DU i fyw a gweithio.

# Gweithgareddau Di-Dâl

## Mae angen i mi deithio i'r DU i gael cyfarfodydd, rhoi perfformiadau hyrwyddo di-dâl, neu wneud gwaith di-dâl arall

### Gwybodaeth Cyffredinol

O'r cyntaf o Ionawr 2021, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, os ydych chi'n artist rhyngwladol heb ddinasyddiaeth Brydeinig neu Wyddelig neu sydd heb statws preswylydd sefydlog neu gynsefydlog yn y DU, bydd angen cynnig cyflogaeth benodol arnoch gan sefydliad trwyddedig cyn dod i'r DU. Fodd bynnag, ceir rhai gweithgareddau y gall artistiaid tramor eu gwneud yn y DU heb fod angen unrhyw gynnig cyflogaeth ymlaen llaw.

Dysgwch fwy am lwybr Ymwelydd Arferol yma: Trosolwg Ymwelydd Arferol

Yn achos y gweithgareddau cyfyngedig, penodol hyn, gall cost teithio, cynhaliaeth a llety'r daith gael eu talu gan drydydd parti lle mae gwir berthynas broffesiynol (neu bersonol) yn bodoli. Fodd bynnag, ni ellir talu'r unigolyn am ei weithgareddau yn y DU, golyga hyn nad yw'n addas i ffynhonnell o'r DU ad-dalu'r unigolyn tu hwnt i gost eu treuliau rhesymol.

Dysgwch fwy am weithgareddau a ganiateir yma: Ymwelydd Arferol: Ymweld ar Fusnes

Y cyfyngiad hwn ar daliad o ffynhonnell yn y DU sy'n tueddu i achosi'r anhawster mwyaf i'r sawl sy'n gobeithio dod i'r DU fel ymwelwyr creadigol. Yn gyffredinol, mae taliadau am weithgareddau yn y DU fel Ymwelydd Arferol Creadigol wedi'u wahardd. Ceir dau eithriad sydd o gymorth i bobl greadigol: perfformiadau gyda thâl mewn Gŵyl Ddidrwydded neu Ymrwymiadau Am Dâl a Ganiateir. Caiff y rhain eu trafod mewn mwy o fanylder o dan 'Gweithgareddau Am Dâl'.

### Gweithgareddau a Ganiateir fel Ymwelydd Arferol

Y gweithgareddau y gallwch eu cyflawni fel Ymwelydd Arferol yn ddi-dâl yw:

Ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig.

# Gweithgareddau Di-Dâl

- Mynychu cynadleddau, cyfarfodydd, a chyfweliadau, a negodi neu lofnodi cytundebau. Mae gweithgareddau a ganiateir hefyd yn cynnwys rhoi sgwrs, araith neu berfformiad untro neu gyfres fer ohonyn nhw, cyhyd â bod y rhain heb eu trefnu fel digwyddiadau masnachol neu'n seiliedig ar elw;
- I fynychu ffeiriau masnach ar gyfer dibenion hyrwyddo yn unig (dim gwerthiant uniongyrchol);
- I gynnal ymweliadau safle, casglu gwybodaeth ar gyfer cynlluniau cyflogaeth yn y DU, neu gael eich briffio ar ofynion cwsmer sydd yn y DU (ar yr amod bod y gwaith yn cael ei wneud tu allan i'r DU);
- I roi perfformiadau fel unigolion neu ran o grŵp, i gymryd rhan mewn cystadlaethau neu glyweliadau, ac i wneud ymddangosiadau personol a hyrwyddo.

## Staff Cymorth Personol neu Dechnegol

Gall staff personol neu gymorth technegol yr artist ddod i'r DU fel Ymwelydd Arferol cyhyd â'u bod yn mynychu'r un digwyddiad â'r artist, y diddanwr neu'r cerddor yn y DU, a chyhyd â'u bod yn cael eu cyflogi ganddyn nhw dramor.

## Proses Ymgeisio

### Gwladolyn Fisa

Rhaid i artistiaid sy'n Wladolion Fisa wneud cais am fisa ymwelydd arferol cyn teithio i'r DU. Gall y ceisiadau hynny gael eu cyflwyno mewn unrhyw wlad lle ceir safle rhoi fisa'r DU – gallwch gael rhagor o wybodaeth am safle rhoi fisâu y DU o dan 'Gweithgareddau Di-dâl: Cwestiynau Cyffredin' ar dudalen 11.
Pris cychwynnol ceisiadau yw £100 a gall ffioedd ychwanegol godi yn y ganolfan fisa am wasanaethau sy'n cynnig ac apwyntiadau hyblyg i ymgeiswyr, felly gwnewch yn siŵr bod gyda chi cynllun wrth gefn i dalu am gostau ychwanegol.

### Gwladolyn Heb Fod Angen Fisa

Artists who are Non-Visa Nationals can enter the UK as standard visitors for up to 6 months, without any visa-related fees and without having to apply from overseas.

# Gweithgareddau Di-Dâl

Dylai Gwladolion Fisa a Gwladolion Heb Fod Angen Fisa sy'n dymuno dod mewn i'r DU fel ymwelwyr sicrhau fod ganddyn nhw'r dogfennau canlynol fel tystiolaeth o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ganddyn nhw yn y DU:

- Llythyr o groeso gan sefydliad neu ŵyl yn y DU, yn cadarnhau ymrwymiad yr artist gan gynnwys unrhyw gytundeb;
- Prawf o lety sydd wedi ei logi yn y DU;
- Tystiolaeth fod yr artist yn gallu cynnal ei hun tra ei fod yn y DU heb ddefnyddio arian cyhoeddus e.e., cyfriflen banc sy'n dangos yr arian sydd ar gael;
  a
- Tystiolaeth fod yna ddigon o arian ar gyfer taith ddychwelyd (fe allwch drefnu eich taith ddychwelyd a thalu ymlaen llaw, ond mae Swyddfa Fisâu a Mewnfudo'r DU yn cynghori yn erbyn hwn).

## Amseroedd Penderfyniadau ar Geisiadau

Gwna Llywodraeth y DU benderfyniadau ar geisiadau o fewn 3 wythnos fel arfer, ond weithiau gall gymryd mwy o amser. Efallai y gallwch chi roi eich cais fisa trwy'r llwybr cyflym gan ddibynnu ym mha wlad rydych chi'n byw - gallwch ofyn i'ch canolfan ceisiadau fisa a yw hwn yn opsiwn i chi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael digon o amser i wneud eich cais a chasglu'r dogfennau cefnogi sydd eu hangen.

Dysgwch fwy am amseroedd penderfynu ar geisiadau yma: Amseroedd Aros am Benderfyniadau ar Fisâu: Ceisiadau o'r tu allan i'r DU

## Ymwelwyr Arferol yn dod i mewn i'r DU trwy Iwerddon

Yn y sefyllfa yma, fel Ymwelydd Arferol gyda'r trefniadau a gwaith papur angenrheidiol yn eu lle, byddwch yn dod i mewn i'r DU o dan Erthygl 4 'caniatâd tybiedig'. Caniatâd i ddod i mewn i'r DU trwy Iwerddon heb fod angen stamp yn eich pasbort yw 'caniatâd tybiedig'. Mae hyn oherwydd na fyddwch o reidrwydd yn cyfarfod â swyddog Llu'r Ffiniau wrth groesi'r ffin rhwng y DU ac Iwerddon. Nid oes angen i chi wneud cais am 'ganiatâd tybiedig', ond rhaid i chi sicrhau bod eich gweithgaredd yn y DU yn dod o fewn y cyfyngiadau ar gyfer ymwelwyr arferol.

Dysgwch fwy am Erthygl 4 'Caniatâd tybiedig' o dan Ganllaw'r Ardal Deithio Gyffredin yma: Teithio i'r DU o Iwerddon, Ynys Manaw, Guernsey a Jersey

# Gweithgareddau Di-Dâl

## Cwestiynau Cyffredin

### → Rwy'n Wladolyn Fisa. Ble alla i wneud cais am fisa ymwelydd arferol, a pha ddogfennau fyddaf eu hangen i gefnogi fy nghais fisa ymwelydd?

Gellir cyflwyno fisa ymwelydd arferol "mewn unrhyw ganolfan ymgeisio am fisa, cenhadaeth ddiplomataidd Brydeinig neu ganolfan gonswl dramor lle derbynnir ceisiadau i ddod i'r DU"

Dysgwch fwy am ble i wneud cais am fisa Ymwelydd Arferol yma:
Swyddfa Fisâu a Mewnfudo'r DU: Ble i wneud cais

### → Beth yw diffiniad staff cynorthwyol, a pha ddogfennaeth gynorthwyol sydd ei angen arnyn nhw i ddod i'r DU?

Does dim diffiniad am staff cynorthwyol, mae cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref yn datgan: "gall staff personol neu dechnegol sy'n mynychu'r un digwyddiad fynd gyda'r artist, diddanwr neu gerddor i'r DU, cyhyd â'u bod yn cael eu cyflogi ganddyn nhw dramor".

Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys, heb fod yn gyfyngedig i:
- coreograffwyr
- rheolwyr llwyfan
- artistiaid colur
- gwarchodwyr personol
- swyddogion y wasg

Cynghorir teithio gyda phrawf o gyflogaeth tramor, er enghraifft, llythyr gan y cyflogwr yn cadarnhau telerau'r gyflogaeth, a hyd a phwrpas yr ymweliad â'r DU.

Dysgwch fwy am staff cynorthwyol neu dechnegol yma:
Tudalen 35 Canllaw Ymweld y Swyddfa Gartref: Creadigol

# Gweithgareddau Am Dâl

## Rydw i'n artist perfformio, ac mae angen i mi deithio i'r DU i berfformio, cael fy nhalu, a gadael.

Gall artistiaid sy'n dymuno teithio i'r DU i berfformio gyda'r bwriad o gael eu talu, ymgymryd â rhai gweithgareddau proffesiynol penodol gyda pheth cynllunio ymlaen llaw. Ceir chwe thrywydd allweddol ar gyfer yr artistiaid hyn:

1. Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE) – uchafswm arhosiad hyd at fis
2. Gwyliau Didrwydded (PFF) – uchafswm arhosiad o 6 mis
3. Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol (ar gyfer Gwladolion Heb Fod Angen Fisa yn unig) – uchafswm arhosiad o 3 mis
4. Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol
5. Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid
6. Trwydded Gweithiwr Cyffiniau

Mae'r llwybrau 'caniatâd i ddod,' sef yr Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir, Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol, a'r Gwyliau Didrwydded, ar gyfer ymrwymiadau byr dymor a theithiau. Gallant fod yn haws a rhatach i'w cael na'r llwybrau hir dymor eraill.

Mae'r llwybrau Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol, Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid, a'r Drwydded Gweithiwr y Cyffiniau yn caniatáu aros am gyfnodau hir dymor , ond mae'r Fisa Gweithiwr Creadigol a'r Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid yn golygu mwy o gostau. Mae trwydded Gweithiwr y Cyffiniau yn rhad ac am ddim, ond mae ganddo gyfyngiadau cenedligrwydd sylweddol.

## I gael gwybod mwy am y llwybrau Fisa hyn, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio'r gweithgaredd rydych chi'n ei gynllunio yn y DU orau:

Rwy'n bwriadu bod yn y DU ar gyfer digwyddiad untro neu ar gyfer gwaith tymor byr

Rwy'n bwriadu bod yn y DU ar gyfer gwaith hir dymor

Rwy'n bwriadu symud i fyw i'r DU i fyw a gweithio

# Gweithgareddau Am Dâl Byr Dymor yn y DU

## Rwy'n bwriadu bod yn y DU ar gyfer digwyddiad untro neu ar gyfer gwaith tymor byr

Mae'r llwybrau fisa hyn ar gyfer Gwladolion Fisa a Gwladolion Heb Fod Angen Fisa sy'n cynllunio teithiau tymor byr, mwy fforddiadwy yn y DU. Ar waelod pob tudalen llwybr, fe welwch fotwm i ddychwelyd i'r tudalen yma, fel y gallwch lywio'n hawdd rhwng y llwybrau. Rydym yn argymell eich bod yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael ar y llwybrau canlynol, fodd bynnag gallwch neidio i bob llwybr trwy ddewis y botymau perthnasol isod.

## Gwladolyn Fisa

### Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE)

Gall artistiaid dod i mewn i'r DU ar gyfer gweithgareddau am dâl byr dymor o dan reolau Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir ac aros am hyd at fis.

Gwybodaeth 14
Cwestiynau Cyffredin 17

### Gwyliau Didrwydded (PFF)

Gall artistiaid dod i mewn i'r DU o dan reolau ymwelydd arferol ac ymgymryd â gweithgareddau am dâl mewn un ŵyl ddidrwydded neu mwy ac aros hyd at 6 mis.

Gwybodaeth 20
Cwestiynau Cyffredin 22

n.b Nid yw'r llwybr Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol ar gael i Wladolion Fisa. Fodd bynnag, gall llwybr Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol fod yn addas. Darllenwch fwy am y lwybr fisa yma o dan 'Gweithagreddau Am Dâl Hir Dymor yn y DU' ar dudalenau 28-32.

## Gwladolyn Heb Fod Angen Fisa

### Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE)

Gall artistiaid dod i mewn i'r DU ar gyfer gweithgareddau am dâl byr dymor o dan reolau Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir ac aros am hyd at fis.

Gwybodaeth 14
Cwestiynau Cyffredin 17

### Gwyliau Didrwydded (PFF)

Gall artistiaid dod i mewn i'r DU o dan reolau ymwelydd arferol ac ymgymryd â gweithgareddau am dâl mewn un ŵyl ddidrwydded neu mwy ac aros hyd at 6 mis.

Gwybodaeth 20
Cwestiynau Cyffredin 22

### Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol

Gall artistiaid dod i mewn i'r DU trwy lwybr Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol ar gyfer gwaith am dâl byr dymor ac aros hyd at 3 mis.

Gwybodaeth 25

# Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE)

## Ar gyfer teithiau tymor byr, mwy fforddiadwy yn y DU

### Gwybodaeth Cyffredinol

Gall artist sy'n 18 oed neu'n hŷn ac sy'n dod i'r DU am fisâu neu lai gymryd rhan mewn un neu fwy Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir. Dyma ddewis a neilltuir ar gyfer pobl broffesiynol sefydledig.

Rhaid i'r apwyntiad gael ei drefnu cyn i'r artist wrth gyrraedd y DU a rhaid i'r artist gael ei gefnogi gan wahoddiad ffurfiol gan sefydliad creadigol, asiant neu ddarlledwr sydd wedi'i leoli yn y DU. Dylai'r gwahoddiad egluro natur yr ymrwymiad, gan gynnwys ei ddyddiadau a'i leoliad, a sut mae'n uniongyrchol gysylltiedig ag arbenigedd a phrofiad yr artist. Dylai unrhyw lety a drefnwyd gan y trefnydd gael ei amlinellu yn y llythyr o wahoddiad.

Cynghorir artistiaid hefyd i baratoi portffolio sy'n cyfeirio at eu gwaith, enw da, unrhyw enillion ac unrhyw ymrwymiadau gwaith cyfredol tu allan i'r DU, ynghyd â natur eu hymrwymiad yn y DU.

Find out more about applying for a Standard Visitor Visa here:
UKVI: Where to apply

### Meini prawf artist sy'n dod i mewn i'r DU ar PPE

Os yw'ch cynlluniau teithio a mynd ar daith yn bodloni'r gofynion canlynol, bydd gyda chi hawl i ddod a gwneud Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir ym maes y celfyddydau ac adloniant (gan gynnwys darlledu):

- Rhaid eich bod o leiaf 18 oed;
- Rhaid eich bod yn ymweld â'r DU am ddim mwy na mis, ac y byddwch yn ymadael â'r DU ar ddiwedd eich ymweliad;
- Rhaid bod gyda chi ddigon o arian ac na fyddwch angen arian cyhoeddus i'ch cynnal a'ch lletya;
- Rhaid bod gyda chi ddigon o arian i dalu am eich taith ymlaen neu ddychwelyd;
  a
- Pan fyddwch yn gadael, ni fyddwch yn mynd i Iwerddon, Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel.

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE)

## Proses Ymgeisio

### Gwladolyn Fisa

Rhaid i artistiaid sy'n Wladolion Fisa wneud cais am fisa Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir cyn teithio i'r DU. Rhaid cyflwyno'r cais yng ngwlad enedigol yr artist neu'r wlad lle mae'n byw yn gyfreithlon. Ffi y cais yw £95 ac fe all ffioedd eraill fod yn daladwy yn y ganolfan ceisio am fisa am wa-sanaethau sy'n cynnig ac apwyntiadau hyblyg i ymgeiswyr.

### Gwladolyn Heb Fod Angen Fisa

Gall artistiaid sy'n Wladolion Heb Fod Angen Fisa ddod i'r DU drwy'r trywydd hwn heb orfod gwneud cais am Fisa o dramor, a heb orfod talu unrhyw ffioedd mewn perthynas â fisa wrth gyrraedd. Mae angen gweld swyddog Llu'r Ffiniau wrth gyrraedd; peidiwch â defnyddio e-glwyd.

## Amseroedd Penderfyniadau ar Geisiadau

Gwna Llywodraeth y DU benderfyniadau ar geisiadau o fewn 3 wyth-nos fel arfer, ond weithiau gall gymryd mwy o amser.
Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael digon o amser i wneud eich cais a chasglu'r dogfennau cefnogi sydd eu hangen.

Dysgwch fwy am amseroedd penderfynu ar geisiadau yma: Amseroedd Aros am Benderfyniadau ar Fisâu: Ceisiadau o'r tu allan i'r DU

## Dod i mewn i'r DU trwy Iwerddon gyda Fisa Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir

Os ydych chi'n dod i'r DU trwy Iwerddon ar gyfer ymrwymiad am dâl a ganiateir, gallwch aros yn y DU ar sail Erthygl 6 'Caniatâd tybiedig' am hyd at fis. Caniatâd i ddod i mewn i'r DU trwy Iwerddon heb fod angen stamp yn eich pasbort yw 'caniatâd tybiedig'. Mae hyn oherwydd na fyddwch o reidrwydd yn cyfarfod â swyddog Llu'r Ffiniau wrth groesi'r ffin rhwng y DU ac Iwerddon.

Dysgwch fwy am gytundeb Ardal Deithio Gyffredin yma: Canllaw Ardal Deithio Gyffredin

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

Ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig.

# Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE)

Nid oes angen i chi wneud cais am 'ganiatâd tybiedig'. Mae eich 'caniatâd tybiedig' yn dechrau o'r dyddiad y byddwch yn dod i mewn i'r DU o Iwerddon am y tro cyntaf. Gallwch brofi'r dyddiad hwn, er enghraifft, gyda'ch tocyn neu'ch pas teithio. Daw'r 'caniatâd tybiedig' hwn i ben pan fyddwch yn ymadael â'r DU.

Dysgwch fwy am Erthygl 6 'Caniatâd tybiedig' yma:
Canllaw'r Ardal Deithio Gyffredin Tudalen 61: Caniatâd tybiedig o dan Erthygl 6 ar gyfer Ymrwymiadau Am Dâl a Ganiateir

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

Ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig.

# Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE)

## Cwestiynau Cyffredin

### → Rydw i'n artist sy'n wladolyn Fisa, ac mae fy nghynlluniau teithio yn bodloni'r gofynion ar gyfer Fisa Ymrwymiadau am Dâl a Ganiateir. Beth sydd angen i mi wneud cyn teithio?

Gall artistiaid Fisa Gwladolyn sy'n cael eu gwahodd i'r DU er mwyn ymgymryd ag Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir, weithio yn y DU am hyd at fis. Pan fyddwch yn ymgeisio am fisa ymwelydd, rhaid i chi ofyn am 'Fisa Ymwelydd PPE' a chyflwyno tystiolaeth ddogfennol gan gynnwys gwahoddiad ffurfiol gan y sefydliad celfyddydol sy'n cadarnhau manylion yr ymrwymiad, a thystiolaeth fod yr ymrwymiad yn gysylltiedig â'ch swydd llawn amser a/neu gymwysterau. Rhaid i'r cais am fisa ddatgan fod hyn wedi cael ei drefnu cyn teithio i'r DU. Pan fyddwch yn ymgeisio am y fisa, bydd rhaid i chi gyflwyno'r dogfennau canlynol:

- Pasbort cyfredol neu gerdyn adnabod  cymwys arall i deithio - rhaid bod gan eich pasbort dudalen wag ar gyfer eich fisa;
- Prawf y gallwch gynnal eich hun yn ystod eich taith - er enghraifft, cyfriflen banc neu slipiau tâl am y 6 mis diwethaf, manylion ynglŷn â'r tâl fyddwch yn ei gael am eich perfformiadau yn y DU;
- Manylion ynglŷn â lle yr ydych yn bwriadu aros a'ch cynlluniau teithio - nid yw'n hanfodol eich bod yn talu am lety na chostau teithio hyd nes eich bod yn cael eich fisa;
- Gwahoddiad ffurfiol gan y sefydliad neu awdurdod sydd wedi'i leoli yn y DU a fydd yn eich talu; a
- Prawf fod yr ymrwymiad am dâl yn gysylltiedig â'ch arbenigedd, cymwysterau a'ch gwaith yng ngwlad eich cartref neu'n rhyngwladol.

### → Rwy'n artist sy'n wladolyn Sydd Heb Fod Angen fisa ac mae fy nghynlluniau teithio yn y DU yn bodloni'r gofynion ar gyfer Ymrwymiadau Am Dâl a Ganiateir. Beth sydd angen i fi ei wneud cyn i fi deithio?

Bydd artistiaid sy'n Wladolion sydd Heb fod Angen Fisa a wahoddir i'r DU i gymryd rhan mewn Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir yn gallu gweithio yn y DU am hyd at fis heb fisa. Pan fyddwch yn cyrraedd y DU, rhaid i chi gyflwyno'r dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol er mwyn bodloni

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE)

## Cwestiynau Cyffredin

swyddog Llu'r Ffiniau eich bod yn bodloni holl ofynion y PPE. Rhaid i'r dystiolaeth ddogfennol gynnwys gwahoddiad ffurfiol gan y sefydliad celfyddydol yn cadarnhau manylion y PPE, a'r dystiolaeth bod y PPE yn gysylltiedig â'ch proffesiwn llawn amser a/neu gymwysterau. Pan fyddwch yn cyrraedd y DU, bydd yn rhaid i chi gyflwyno'r ddogfennaeth ganlynol:

- Pasbort cyfredol neu adnabyddiaeth teithio cymwys arall;
- Prawf y gallwch gynnal eich hun yn ystod eich taith - er enghraifft, cyfriflen banc neu slipiau tâl am y 6 mis diwethaf, manylion ynglŷn â'r tâl fyddwch yn ei gael am eich perfformiadau yn y DU;
- Manylion ynglŷn â lle yr ydych yn bwriadu aros a'ch cynlluniau teithio
- Gwahoddiad ffurfiol gan sefydliad neu awdurdod sydd wedi'i leoli yn y DU a fydd yn eich talu;
  a
- Phrawf fod yr ymrwymiad am dâl yn gysylltiedig â'ch arbenigedd, cymwysterau a'ch gwaith yn eich gwlad adref neu'n rhyngwladol.

### Beth sydd angen i mi ei wneud wrth gyrraedd y DU?

Pan fyddwch yn cyrraedd y DU i ymgymryd ag Ymrwymiadau Am Dâl a Ganiateir, bydd rhaid i chi fod yn ofalus wrth sicrhau bod eich dyfodiad i'r DU yn cael ei 'ddilysu' gan swyddogion Llu'r Ffiniau, sydd fel arfer yn golygu sicrhau bod y swyddog yn rhoi stamp yn eich pasbort. Os na fydd hyn yn digwydd, mae siŵr o fod yn golygu eich bod wedi cael dod i'r DU fel ymwelydd cyffredin, sy'n golygu bydd cymryd rhan yn yr ŵyl yn drosedd oherwydd eich statws. Ni ddylech ddefnyddio'r e-glwydi.

### A all staff cynorthwyol technegol neu bersonol, neu dîm cynhyrchu, ddod i mewn i'r DU drwy lwybr PPE?

Gall staff personol neu dechnegol i artistiaid neu aelodau'r tîm cynhyrchu ddod i mewn i'r DU fel Ymwelwyr Arferol er mwyn cynorthwyo gweithgareddau'r artist, y diddanwr neu'r cerddor sy'n

[Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa](#)
[Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor](#)
[Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor](#)

# Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE)

## Cwestiynau Cyffredin

dod i mewn i'r DU fel Ymwelwyr Arferol er mwyn cynorthwyo gweithgareddau'r artist, y diddanwr neu'r cerddor sy'n dod i'r DU fel ymwelydd Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir, cyhyd â'u bod yn mynychu'r un digwyddiad ac wedi eu cyflogi gan yr artist tu allan i'r DU. Byddai cyfarwyddyd Ymwelydd Arferol yn gymwys ar gyfer staff cynorthwyol. Gweler y cyngor blaenorol ar ymgymryd â gweithgarwch di-dâl yn y DU. Gallwch ddarllen mwy o wybodaeth am y llwybr Ymwelydd Arferol ac ymgymryd â gweithgaredd di-dâl yn y DU ar dudalen 8.

### → A all unigolyn gyfuno taith Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE) a Gwyliau Didrwydded (PFF) mewn un ymweliad?

Nid yw'n unol â pholisi mewnfudo'r DU i gyfuno fisa Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE) a fisa Gwyliau Didrwydded (PFF). Mae PPE a PFF yn ddau lwybr mynediad fisa ar wahân ac maent yn benodol  i sut y cawsoch eich gwahodd i'r DU. Ar ôl gorffen eich PPE, byddai'n briodol ichi ymadael â'r DU cyn dychwelyd ar gyfer unrhyw ymrwymiadau PFF.

### → A oes cyfyngiad ar faint  o weithiau y gallaf ymweld â'r DU mewn blwyddyn?

Does dim terfyn penodol ar y nifer o ymweliadau gall unigolyn ei wneud yn y DU mewn unrhyw flwyddyn. Fodd bynnag, dylai unigolion fod yn ofalus i beidio â threulio mwy na hanner o'u hamser yn y DU; byddai hyn yn cael ei ystyried fel ymgais i breswylio yn y DU drwy gyfrwng ymweliadau,

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gwyliau Didrwydded (PFF)

## Ar gyfer teithiau tymor byr, mwy fforddiadwy yn y DU

### Gwybodaeth Cyffredinol

Gall artistiaid, diddanwyr a cherddorion sy'n ymweld â'r DU o dan reolau ymwelydd arferol gymryd rhan mewn un neu fwy o ddigwyddiadau neu wyliau diwylliannol sydd ar y rhestr o wyliau didrwydded lle caniateir derbyn tâl. Dylai artistiaid sicrhau fod ganddyn nhw lythyr o groeso gan y sefydliad neu'r ŵyl yn y DU sy'n cadarnhau'r gweithgaredd, gan gynnwys unrhyw gytundeb, a dylai allu bodloni pob gofyniad i ymwelwyr arferol fel sydd dan weithgareddau di-dâl, gan gynnwys profi fod ganddyn nhw ddigon o arian i gynnal eu hunain yn ystod eu cyfnod yn y DU, ac wrth ddychwelyd adref.

Gweler y rhestr o Wyliau Didrwydded yma:
Atodiad Ymwelydd Rheolau Mewnfudo: Rhestr Gwyliau Didrwydded

### Proses Ymgeisio

#### Gwladolyn Fisa

Rhaid i artistiaid sy'n Wladolion Fisa wneud cais am fisa Ymwelydd Arferol cyn teithio i'r DU. Rhaid i'r ceisiadau hynny gael eu cyflwyno yng ngwlad enedigol yr artist neu'r wlad lle mae'n byw yn gyfreithlon. Pris gwneud cais yw £100 ac fe all ffioedd ychwanegol godi yn y ganolfan ymgeisio am fisa am wasanaethau sy'n cynnig ac apwyntiadau hyblyg i ymgeiswyr fisa.

#### Gwladolyn Heb Fod Angen Fisa

Gall artistiaid sy'n Wladolion Heb Fod Angen Fisa ddod mewn i'r DU trwy'r llwybr yma heb orfod gwneud cais am fisa o dramor, a heb orfod talu unrhyw ffioedd mewn perthynas â fisa am ddod mewn. Mae'n hanfodol i weld swyddog Llu'r Ffiniau ar ddod mewn; peidiwch â defnyddio e-glwyd.

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gwyliau Didrwydded (PFF)

## Amseroedd Penderfyniadau ar Geisiadau

Gwna Llywodraeth y DU benderfyniadau ar geisiadau o fewn 3 wythnos fel arfer, ond weithiau gall gymryd mwy o amser.
Gwnewch yn siwr eich bod yn gadael digon o amser i wneud eich cais a chasglu'r dogfennau cefnogi sydd eu hangen.

Dysgwch fwy am amseroedd penderfynu ar geisiadau yma: Amseroedd Aros am Benderfyniadau ar Fisâu: Ceisiadau o tu allan i'r DU

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

Ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig.

# Gwyliau Didrwydded (PFF)

## Cwestiynau Cyffredin

### → Pa rai yw'r gwyliau didrwydded?

Mae Llywodraeth y DU yn diweddaru'r rhestr o Wyliau Didrwydded ar eu gwefan. Mae'n rhaid i chi wneud cais i fod yn Ŵyl Ddidrwydded.

Gweler y rhestr o Wyliau Didrwydded yma:
Atodiad Ymwelydd Rheolau Mewnfudo: Rhestr Gwyliau Didrwydded

### → Sut gallaf gynnwys fy ngŵyl ar y rhestr hon?

Mae Llywodraeth y DU yn rhestru'r broses ymgeisio i fod yn Ŵyl Ddidrwydded ar eu gwefan, gan gynnwys dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau.

Dysgwch fwy am y rheolau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â dod yn Ŵyl Ddidrwydded yma:
Sut i wneud cais i gael eich cynnwys ar restr y Gwyliau Didrwydded

### → Rwy'n Wladolyn Fisa. Ble alla i ymgeisio am fisa Ymwelydd Arferol, a pha ddogfennau fydd eu hangen arnaf i gefnogi fy nghais am fisa ymwelydd o ystyried fy mod am berfformio mewn Gŵyl Ddidrwydded?

Os ydych yn Wladolyn Fisa, gallwch wneud cais am fisa Ymwelydd Arferol ar wefan Llywodraeth y DU (ni allwch wneud cais ar-lein os ydych yn dod o Ogledd Corea). Fel Gwladolyn Fisa sy'n bwriadu perfformio mewn Gŵyl Ddidrwydded, bydd angen llythyr arnoch sy'n

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gwyliau Didrwydded (PFF)

## Cwestiynau Cyffredin

cadarnhau eich bod yn cymryd rhan yn yr Ŵyl Ddidrwydded fel rhan o'ch cais am fisa ymwelydd, yn ogystal â'r dogfennau arferol a amlinellir yng nghais y fisa, gan gynnwys pasbort, tystiolaeth o arian, a lluniau. Fe allech hefyd ddymuno cynnwys eich cytundeb gyda'r lleoliad, sy'n cadarnhau eich bod dan gytundeb i berfformio. Gallwch wneud cais hyd at dri mis ymlaen llaw am y fisa ymwelydd. Pris y fisa Ymwelydd Arferol yw £100 ac fe ddylai gymryd tua 3 wythnos i brosesu.

### Beth sydd angen i fi ei wneud wrth gyrraedd y DU pan fyddaf yn perfformio mewn Gŵyl Ddidrwydded?

Pan fyddwch yn cyrraedd y DU i berfformio mewn Gŵyl Ddidrwydded, rhaid i chi fod yn ofalus i sicrhau bod eich dyfodiad i'r DU yn cael ei 'ddilysu' gan swyddogion Llu'r Ffiniau, sydd fel arfer yn golygu sicrhau bod y swyddog yn rhoi stamp ar eich pasbort. Ni ddylech ddefnyddio e-glwyd. Os na fydd hyn yn digwydd, bydd yn golygu eich bod wedi dod i mewn i'r DU fel ymwelydd cyffredin, sy'n golygu bod cymryd rhan yn yr Ŵyl yn drosedd oherwydd eich statws.

### A all staff cynorthwyol technegol neu bersonol, neu dîm cynhyrchu, ddod i mewn i'r DU drwy lwybr Gwyliau Didrwydded?

Gall staff personol neu dechnegol i artistiaid neu aelodau'r tîm cynhyrchu ddod i mewn i'r DU fel Ymwelwyr Arferol er mwyn cynorthwyo gweithgareddau'r artist, y diddanwr neu'r cerddor sy'n dod i'r DU i berfformio mewn Gŵyl Ddidrwydded, cyhyd â'u bod yn mynychu'r un digwyddiad ac wedi eu cyflogi gan yr artist y tu allan i'r DU. Byddai cyfarwyddyd ymwelydd arferol yn gymwys ar gyfer staff cynorthwyol. Gallwch ddarllen mwy o wybodaeth am y llwybr Ymwelydd Arferol ac ymgymryd â gweithgaredd di-dâl yn y DU ar dudalen 8.

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gwyliau Didrwydded (PFF)

## Cwestiynau Cyffredin

### A all unigolyn gyfuno taith Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir a Gwyliau Didrwydded mewn un ymweliad?

Nid yw'n unol â pholisi mewnfudo'r DU i gyfuno fisa Gwyliau Didrwydded (PFF) a fisa Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE). Mae PFF a PPE yn ddau lwybr fisa ar wahân ac maent yn benodol i sut y cawsoch eich gwahodd i'r DU. Ar ôl gorffen eich PFF, byddai'n briodol ymadael â'r DU cyn dychwelyd ar gyfer unrhyw ymrwymiadau PPE.

### A oes terfyn penodol ar faint o weithiau y gallaf ymweld â'r DU mewn blwyddyn?

Nac oes, nid oes dim terfyn penodol ar faint o weithiau y gall unigolyn ymweld â'r DU mewn blwyddyn. Fodd bynnag, dylai unigolion fod yn ofalus i beidio â threulio mwy na hanner o'u hamser yn y DU; byddai hyn yn cael ei ystyried fel ymgais i breswylio yn y DU drwy gyfrwng ymweliadau, ac ni chaniateir hynny.

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol

## Ar gyfer Gwladolion Heb Fod Angen Fisa am deithiau tymor byr, mwy fforddiadwy yn y DU

Gwybodaeth Cyffredinol

Mae'r llwybr fisa hwn ar gyfer Gwladolion Heb Fod Angen Fisa yn unig. Gall artistiaid sy'n Wladolion Heb Fod Angen Fisa ddod i'r DU drwy'r try-wydd hwn heb orfod gwneud cais am Fisa o dramor, a heb orfod talu unrhyw ffioedd mewn perthynas â fisa wrth gyrraedd, cyhyd â'u bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Mae'r artist yn Wladolyn Heb Fod Angen Fisa;
- Cyfanswm yr holl gyfnodau, ynghyd ag unrhyw fwlch rhwng yr ymrwymiadau, yw 3 mis neu lai.
- Bod yr artist, yn aml, mewn cydweithrediad â'i gyflwynydd yn y DU, wedi nodi sefydliad yn y DU sydd wedi ei gofrestru gyda Thrwydded Noddwr y Swyddfa Gartref fydd yn "noddi" y fisa;
- Bod y sefydliad sy'n noddi yn y DU yn rhoi Tystysgrif Nawdd i'r artist unigol, sy'n amlinellu'r hyn fydd yr artist yn ei wneud ac unrhyw drefniant o ran taliad. Mae'r Dystysgrif yn egluro sut mae'r artist yn gymwys ar gyfer fisa yn unol â meini prawf penodol. Mae'r Dystysgrif Nawdd yn dod yn weithredol wrth gyrraedd y DU;
- Uchafswm yr arhosiad yw 3 mis neu lai o'r dyddiad y cewch eich fisa.

Unwaith i'r artist gyrraedd y DU, bydd rhaid iddo ymgymryd â'r gwaith a ddisgrifir yn y Dystysgrif Nawdd.

Dysgwch fwy am lwybr Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol yma:
Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol

Gweler rhestr o sefydliadau gyda Thrwydded Noddwr y Swyddfa Gartref yma:
Cofrestr o Noddwyr â Thrwydded

Darllenwch y meini prawf penodol ar gyfer Tystysgrif Nawdd yma:
Rheolau Mewnfudo Codau Ymarfer Gweithiwr Creadigol

## Ymrwymiadau Olynol gyda Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol

**'Ymrwymiadau olynol'** yw lle mae sawl noddwr yn cefnogi ymgeisydd dros nifer o wahanol ymrwymiadau yn y DU. Os ydych yn cael eich noddi ar gyfer ymrwymiadau olynol, bydd rhaid i bob noddwr ddal

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol

trwydded nawdd dilys, a rhaid iddo aseinio ei Dystysgrif Nawdd ei hun i chi.

**'Ymrwymiadau lluosog'** yw lle mae'r un noddwr yn cefnogi'r unigolyn drwy gydol y cyfnod, ond fod nifer o ymrwymiadau gwahanol drwy gydol y cyfnod nawdd.

Ar gyfer 'ymrwymiadau olynol' ac 'ymrwymiadau lluosog', ni chaniateir mwy na 14 dydd rhwng pob ymrwymiad unigol yn y DU. Fodd bynnag, os byddwch yn ymadael â'r DU ac yn dychwelyd, ni fydd eich amser i ffwrdd yn cyfrif tuag at y 14 diwrnod.

## Gwaith Atodol

Caniateir artistiaid hefyd i ymgymryd â gwaith atodol o hyd at 20 awr yr wythnos os yw'r swydd naill ai'n un alwedigaeth brin neu crybwyllir y gwaith yn yr un cod galwedigaethol ac ar yr un lefel a'r gwaith y cafodd ei noddi. Gellir gwneud y gwaith yma gyda sefydliad yn y DU sydd heb drwydded noddi, ond rhaid iddo beidio ag ymyrryd â'r prif ymrwymiad.

Gweler y rhestr galwedigaethau prin i weithwyr medrus yma:
Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol: Galwedigaethau Prin

## Dod i mewn i'r DU trwy Iwerddon gyda Chonsesiwn Fisa Gweithiwr

Os ydych chi'n dod i'r DU trwy Iwerddon trwy lwybr Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol, rhaid gwneud cais o leiaf 72 awr cyn i chi gyrraedd y DU i gael caniatâd o bell.

Mae gwybodaeth am deithio i'r DU drwy Iwerddon (Canllawiau Ardal Deithio Gyffredin), a sut i wneud cais am ganiatâd o bell ar gyfer Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol ar gael ar wefan Llywodraeth y DU.

Dysgwch fwy am gytundeb Ardal Deithio Gyffredin yma:
Canllaw yr Ardal Deithio Gyffredin

Dysgwch fwy am broses ymgeisio i gael caniatâd o bell yma:
Ffurflen Caniatáu Mewnfudo: Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Ymlaen i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor yn y DU

## Rydw i'n bwriadu bod yn y DU ar gyfer gwaith hir dymor

Gallai'r llwybrau canlynol fod yn addas ar gyfer artistiaid sy'n bwriadu bod yn y DU ar gyfer gweithgareddau am dâl hir dymor . Ar waelod pob tudalen llwybr, fe welwch fotwm i ddychwelyd i'r tudalen yma, fel y gallwch lywio'n hawdd rhwng y llwybrau. Rydym yn argymell eich bod yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael ar y llwybrau canlynol, fodd bynnag gallwch neidio i bob llwybr trwy ddewis y botymau isod.

## Gwaith Dros Dro - Fisa Gweithiwr Creadigol

Gall artist aros yn y DU ar gyfer gweithgarwch am dâl am **hyd at 12 mis**, gydag estyniad posib o **hyd at 24 mis.**

Gwybodaeth 28
Cwestiynau Cyffredin 31

## Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid

Gall artist aros yn y DU ar gyfer gweithgarwch am dâl am hyd at 2 flynedd, ond ceir cyfyngiadau ar oedran a chenedl.

Gwybodaeth 32

## Trwydded Gweithiwr Cyffiniau

Gall artistiaid sy'n bodloni'r meini prawf cenedligrwydd ac amodau eraill aros yn y DU ar gyfer gweithgarwch am dâl **hyd at 5 mlynedd** (neu **2 flynedd** os yw'r artist wedi ymgeisio am statws 'gweithiwr a gedwir'). Mae'r drwydded yn rhad ac am ddim.

Dysgwch fwy am statws 'gweithiwr a gedwir' yma: Trwydded Gweithiwr Cyffiniau: Pwy all Wneud Cais Worker

Gwybodaeth 34

# Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol

## Ar gyfer gweithgarwch am dâl hir dymor yn y DU

### Gwybodaeth Cyffredinol

Dyma'r trywydd fisa delfrydol ar gyfer dawnswyr, cerddorion, actorion, gweithwyr mewn ffilm a theledu, modelau ffasiwn, a pherfformwyr eraill sydd ar gytundeb am ymrwymiadau yn y DU fydd yn para dros fisâu. Mae'r llwybr Gwaith Dros Dro - Fisa Gweithiwr Creadigol yn caniatáu'r artist i fyw a gweithio yn y DU am hyd at 12 mis i ddechrau (estyniad hyd at 24 mis yn bosibl), yn ogystal ag ymadael â'r DU a dod yn ôl yn ystod y cyfnod o nawdd.

Dysgwch fwy am lwybr Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol yma: [Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol]

### Proses Ymgeisio

Er mwyn cael gafael ar Fisa Gweithiwr Creadigol (Gwaith Dros Dro) rhaid cymryd tri cham:

1. Rhaid i'r artist, yn aml gyda chydweithrediad eu cyflwynydd yn y DU, adnabod sefydliad yn y DU sydd wedi cael ei gofrestru gyda thrwydded noddwr y Swyddfa Gartref, a fydd yn noddi'r fisa.

2. Bydd y sefydliad noddi yn y DU yn rhoi Tystysgrif Nawdd i'r artist unigol, sy'n nodi'r hyn fydd yr artist yn ei wneud ac unrhyw drefniant taliad. Mae'r Dystysgrif Nawdd yn egluro sut mae'r artist yn gymwys ar gyfer fisa yn unol â'r meini prawf penodol sydd wedi eu rhestru ar wefan Llywodraeth y DU.

3. Mae'r artist yn gwneud cais am fisa, gan gyfeirio at yr wybodaeth sydd wedi'i gynnwys yn y Dystysgrif Nawdd. Rhaid cyflwyno'r cais yng ngwlad enedigol yr artist neu'r wlad lle mae'n byw'n gyfreithlon. Fel rhan o'r cais, rhaid i'r

Gweler rhestr o sefydliadau gyda Thrwydded Noddwr y Swyddfa Gartref yma: [Cofrestr o Noddwyr â Thrwydded]

Darllenwch y meini prawf penodol ar gyfer Tystysgrif Nawdd yma: [Rheolau Mewnfudo Codau Ymarfer Gweithiwr Creadigol]

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol

artist brofi fod ganddo gynilion personol o o leiaf £1,270 am gyfnod o 28 diwrnod.

Unwaith i'r artist gyrraedd y DU, bydd rhaid iddynt ymgymryd â'r gwaith a osodir yn y Dystysgrif Nawdd.

## Cymhwyster

Er mwyn bod yn gymwys i gael Fisa Gweithiwr Creadigol (Gwaith Dros Dro), bydd angen i chi ddangos hefyd eich bod:

- Yn mynd i wneud cyfraniad unigol i farchnad lafur y DU, er enghraifft drwy fod yn enwog yn rhyngwladol neu eich bod yn hanfodol i  barhad prosiect;
- Yn bodloni gofynion cod ymarfer perthnasol;
- Yn mynd i gael eich talu'r isafswm cyflog fel y pennir gan Equity, PACT neu BECTU (heblaw am ar gyfer modelau, cerddorion neu waith syrcas);
- Bod gennych chi £1270 mewn cyfrif banc am 90 dydd cyn ymgeisio (oni bai bod eich noddwr cyflogwr yn noddwr gradd-A wedi'i gymeradwyo'n llwyr ac yn tystio y bydd yn eich cynnal).

## Amseroedd Penderfyniadau ar Geisiadau

Unwaith i'r cais gael ei gyflwyno, bydd llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniad ymhen tair wythnos fel arfer, ond gall hyn gymryd mwy o amser weithiau. Efallai y gallwch roi eich cais fisa trwy'r llwybr cyflym - gallwch  ofyn i'ch canolfan ymgeisio am fisa a yw'n  opsiwn i chi. £244 yw'r  ffi ymgeisio  a bydd Gordal Iechyd Mewnfudo yn gymwys os yw'r fisa yr ymgeisir amdani yn hwy na chyfnod o 6 mis. Fe all ffioedd ych-wanegol godi yn y ganolfan ymgeisio am fisa am wasanaethau sy'n cynnig  ac apwyntiadau hyblyg i ymgeiswyr fisa.

Dysgwch fwy am amseroedd penderfynu ar geisiadau yma:
Amseroedd Aros am Benderfyniadau ar Fisâu: Ceisiadau o tu allan i'r DU

Dysgwch fwy am Ordal Iechyd Mewnfudo yma:
Talu am ofal iechyd yn y DU fel rhan o'ch cais mewnfudo

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol

## Fisas ar gyfer Aelodau'r Teulu

Gall aelodau teulu'r artist wneud cais am fisa dibynyddion ar yr un pryd â'r artist, neu wedi i fisa'r artist gael ei rhoi. Mae'r broses ymgeisio a'r ffioedd fwy neu lai'r un peth â'r rhai a delir gan yr artist.

## Ymrwymiadau Olynol gyda Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol

**'Ymrwymiadau olynol'** yw lle mae sawl noddwr gefnogi ymgeisydd dros nifer o wahanol ymrwymiadau yn y DU. Os ydych yn cael eich noddi ar gyfer ymrwymiadau olynol, bydd rhaid i bob noddwr ddal trwydded nawdd dilys, a rhaid iddo aseinio ei Dystysgrif Nawdd ei hun i chi.

**'Ymrwymiadau lluosog'** yw lle mae'r un noddwr yn cefnogi'r unigolyn drwy gydol y cyfnod, ond fod nifer o ymrwymiadau gwahanol drwy gydol y cyfnod nawdd.

Ar gyfer 'ymrwymiadau olynol' ac 'ymrwymiadau lluosog', ni chaniateir mwy na 14 dydd rhwng pob ymrwymiad unigol yn y DU. Fodd bynnag, os byddwch yn ymadael â'r DU ac yn dychwelyd, ni fydd eich amser i ffwrdd yn cyfrif tuag at y 14 diwrnod.

## Gwaith Atodol

Caniateir i artistiaid hefyd ymgymryd â gwaith atodol o hyd at 20 awr yr wythnos os yw'r swydd naill ai'n alwedigaeth brin neu'n cael ei chynnwys yn yr un cod galwedigaeth ac ar yr un lefel a'r gwaith y cafodd ei noddi. Gellir gwneud y gwaith yma gyda sefyd-liad yn y DU sydd heb drwydded noddi, ond rhaid iddo beidio ag ymyrryd â'r prif ymrwymiad.

Gweler y rhestr galwedigaethau prin i weithwyr medrus yma: Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol: Galwedigaethau Prinder

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol

## Cwestiynau Cyffredin

### Beth alla i wneud gyda Fisa Gweithiwr Creadigol?

Trwy'r llwybr Gwaith Dros Dro - Fisa Gweithiwr Creadigol fe allwch:

- Aros am hyd at 12 mis (estyniad posibl ar gael);
- Gweithio i'ch noddwr yn y swydd a ddisgrifir yn eich Tystysgrif Nawdd;
- Gwneud ail swydd yn yr un sector ac ar yr un lefel â'ch prif swydd am hyd at 20 awr yr wythnos (mae eithriadau cymwys i hyn);
- Teithio dramor a dychwelyd i'r DU;
  a
- Dod ag aelodau'r teulu gyda chi.

### Sut galla i gael Fisa Gweithiwr Creadigol (Gwaith Dros Dro)?

Er mwyn ymgeisio am Fisa Gweithiwr Creadigol (Gwaith Dros Dro), rhaid i chi gael Tystysgrif Nawdd, cyn ymgeisio am y fisa ar-lein (oni bai eich bod yn dod o Ogledd Corea).

Cael tystysgrif nawdd
Er mwyn cael tystysgrif Gweithiwr Creadigol (Gwaith Dros Dro), rhaid bod Sefydliad Noddi Gweithwyr Creadigol Trwyddedig wedi neilltuo tystysgrif nawdd i chi.

Rhaid i'r dystysgrif nawdd gadarnhau eich bod yn gymwys am un o'r dosbarthiadau a geir yn:

- Atodiad Rheolau Mewnfudo Codau Ymarfer ar gyfer Gweithiwr Creadigol
- Rheolau Mewnfudo Atodiad Galwedigaethau Medrus ac/neu
- Atodiad Rheolau Mewnfudo Rhestr Galwedigaethau Prinder

Mae'r rhestri yma'n cynnwys categorïau ar gyfer cerddorion ac artistiaid eraill.

Gweler rhestr o sefydliadau gyda Thrwydded Noddwr y Swyddfa Gartref yma:
Cofrestr o Noddwyr â Thrwydded

Gweler rhestr galwedigaethau medrus prin yma:
Fisa Gweithiwr Medrus: Galwedigaethau Prinder

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol

## Cwestiynau Cyffredin

→ **Ymgeisio am y Fisa Gweithiwr Creadigol (Gwaith Dros Dro)**
Tri mis cyn y dyddiad gwaith a restrir ar eich tystysgrif nawdd yw'r cynharaf y gallwch ymgeisio. Fe ddylai gymryd tua 3 wythnos i'r fisa gael ei brosesu unwaith y derbynnir eich cais.

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid

Ar gyfer gweithgarwch am dâl hir dymor yn y DU

## Gwybodaeth Cyffredinol

Mae'r Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid yn caniatáu i'r artist fyw a gweithio yn y DU am hyd at 24 mis, yn ogystal ag ymadael â'r DU a dod yn ôl yn ystod cyfnod o 24 mis.

Dysgwch fwy am Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid yma: Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid

## Cymhwyster

Gallai'r trywydd fisa hwn fod yn ddelfrydol i artistiaid sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- 18-30 mlwydd oed;
- Bod gennych o leiaf £2,530 o gynilion;
- A'ch cenedligrwydd ymhlith y canlynol: Awstralia, Canada, Monaco, Seland Newydd, San Marino neu Gwlad yr Iâ.

Rhaid i chi gael eich dewis ym mhleidlais y Cynllun Symudedd Ieuenctid cyn y gallwch wneud cais am eich fisa os ydych yn dod o Hong Cong, Siapan, De Corea neu Taiwan.

Dysgwch fwy am y system bleidlais yma: System Bleidlais Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid

## Application Decision Times

Unwaith i'r cais gael ei gyflwyno, bydd llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniad ymhen tair wythnos fel arfer, ond gall hyn gymryd mwy o amser. Efallai y gallwch chi roi eich cais fisa trwy'r llwybr cyflym - gallwch ofyn i'ch canolfan ymgeisio am fisa a yw'n  opsiwn i chi. £244 yw'r ffi ymgeisio a bydd Gordal Iechyd Mewnfudo yn gymwys os yw'r

Dysgwch fwy am amseroedd penderfynu ar geisiadau yma: Amseroedd Aros am Benderfyniadau ar Fisâu: Ceisiadau o'r tu allan i'r DU

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid

fisa yr ymgeisir amdani yn hwy na 6 mis. Fe all ffioedd ychwanegol godi yn y ganolfan ymgeisio am fisa am wasanaethau sy'n cynnig ac apwyntiadau hyblyg i ymgeiswyr fisa.

Dysgwch fwy am Ordal Iechyd Mewnfudo yma:
Talu am ofal iechyd yn y DU fel rhan o'ch cais mewnfudo

## Fisas ar gyfer Aelodau'r Teulu

Ni all aelodau teulu'r artist wneud cais am fisa dibynyddion ar yr un pryd â'r artist, na chwaith wedi i fisa'r artist gael ei rhoi.

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Trwydded Gweithiwr Cyffiniau

Ar gyfer gweithgarwch am dâl hir dymor yn y DU

## Gwybodaeth Cyffredinol

Mae Trwydded Gweithiwr y Cyffiniau yn caniatáu i'r artist weithio yn y DU am hyd at 5 mlynedd (neu 2 flynedd os wnaeth yr artist geisio am statws 'gweithiwr a gedwir'). Nid oes ffi i'w thalu am ymgeisio am y drwydded, a dim gofyniad i dalu'r Gordal Iechyd Mewnfudo. Fe all fod rhaid i'r artist dalu er mwyn cyflwyno ei wybodaeth biometrig (llun neu ôl bysedd).

Dysgwch fwy am Drwydded Gweithiwr Cyffiniau yma: Trwydded Gweithiwr Cyffiniau

Dysgwch fwy am statws 'gweithiwr a gedwir' yma: Trwydded Gweithiwr Cyffiniau: Pwy all wneud cais

## Cymhwyster

Gallai'r trywydd hwn am drwydded fod yn ddelfrydol ar gyfer artistiaid sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:
Nationality is EU, Switzerland, Norway, Iceland or Liechtenstein;

- Eu bod yn wladolion yr Undeb Ewropeaidd, y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein;
- Yn byw'n bennaf y tu allan y DU;
- Wedi gweithio yn y DU erbyn Rhagfyr 31, 2020;
- Yn perfformio gwaith dilys ac effeithiol yn y DU yn y 12 mis cyn gwneud cais am y drwydded (mae rhai eithriadau'n gymwys)

## Fisas ar gyfer Aelodau'r Teulu

Nid yw aelodau teulu'r artist yn cael eu cynnwys yn nhrwydded Gweithiwr y Cyffiniau.

Nôl i Dudalen Cynnwys y Canllaw Fisa
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithagreddau Am Dâl Byr Dymor
Nôl i Dudalen Cynnwys Gweithgareddau Am Dâl Hir Dymor

# Byw yn y DU

Rydych chi'n bwriadu symud i fyw i'r DU i fyw a gweithio

## Gwybodaeth Cyffredinol

Fel arfer y llwybrau Gwyliau Didrwydded (PPE), Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir (PPE) a Gwaith Dros Dro - Fisa Gweithiwr Creadigol sydd fwyaf addas ar gyfer y rhan fwyaf o artistiaid tramor sy'n dymuno teithio neu ymgymryd â chyflogaeth yn y DU heb fyw yn y DU am gyfnod estynedig. Fodd bynnag, mae yna opsiynau eraill ar gael y gallai fod yn werth eu hystyried, yn enwedig os yw'r artist yn arbennig o fedrus neu'n bwriadu ymrwymo i waith yn y DU am amser hirach:

## Fisa Talent Fyd-Eang

Dyma'r llwybr ar gyfer arweinwyr neu rai potensial yn y celfyddydau, dawns, llenyddiaeth, cerddoriaeth, theatr neu'r celfyddydau gweledol, gan gynnwys ffilm a theledu (sydd y cynnwys animeiddio, ôl-gynhyrchu ac effeithiau gweledol).

Mae'n broses 2 gam:

1. Rhaid i ymgeiswyr goladu'r dogfennau a restrir yma ac ymgeisio am Dystysgrif o Ardystiad ar wefan Llywodraeth y DU.

2. Bydd y corff cymeradwyo (Cyngor Celfyddydau Lloegr) yn asesu ceisiadau am gymeradwyaeth. Unwaith y caiff Tystysgrif o Ardystiad ei rhoi, rhaid i'r artist gyflwyno cais am fisa sy'n cyfeirio at yr ardystiad. Os caiff ei roi, bydd y fisa yn gymwys am gyfnod o hyd at 5 mlynedd.

Mae gan deulu'r artist yr hawl i wneud cais am fisâu dibynolion am yr un cyfnod. Cyfanswm y ffi am y fisa a'r Dystysgrif Ardystio yw £623

Dysgwch fwy am y Fisa Talent Fyd-Eang yma:
Gweithio yn y DU fel arweinydd yn y celfyddydau a diwylliant

Gweler y rhestr o ddogfennau angenrheidiol yma:
Fisa Talent Fyd-Eang: Dogfennau angenrheidiol

Dysgwch fwy am y cam gyntaf o gymeradwyaeth ac ymgeisio yma:
Cymeradwyaeth Talent Fyd-Eang – Cam 1

Darllenwch ganllaw'r corff cymeradwyo Cyngor Celfyddydau Lloegr yma:
Y Fisa Talent Fyd-Eang

# Byw yn y DU

ac fe fydd y Gordal Iechyd Mewnfudo yn gymwys ar gyfer pob cais (gan gynnwys aelodau o'r teulu). Gall costau ychwanegol godi ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y ganolfan ymgeisio am fisa.

Dysgwch fwy am Ordal Iechyd Mewnfudo yma:
Talu am ofal iechyd yn y DU fel rhan o'ch cais mewnfudo

## Fisa Gweithiwr Medrus

Dyma'r llwybr ar gyfer unigolion sy'n dymuno cael eu cyflogi gan gyflogwr y DU sydd â thrwydded noddwr. Rhaid i'r swydd a gynigir gan gyflogwr-noddwr y DU fod yn un medrus, a rhaid i'r unigolyn gael ei dalu lleiafswm o gyflog. Rhaid i'r noddwr yn y DU roi Tystysgrif Nawdd i'r unigolyn, sy'n amlinellu gwybodaeth ynglŷn â'r swyddogaeth fedrus a'r cyflog a gaiff ei gynnig.

Fel rhan o'r cais am fisa, rhaid i'r unigolyn:

- Gyfeirio at y Dystysgrif Nawdd;
- Dangos bod gyda nhw arian personal o £1,270 o leiaf am gyfnod o 28 dydd, oni bai bod cynhaliaeth wedi cael ei gynnig gan y noddwr;
- bodloni gofyniad iaith Saesneg.

Pe bai'n cael ei roi, bydd y fisa'n gymwys am gyfnod o 5 mlynedd. Mae aelodau o'r teulu yn gymwys i wneud cais am fisâu dibynyddion am yr un cyfnod. Mae'r ffioedd ar gyfer fisa yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar hyd y fisa a natur y gwaith medrus. Mae'r Gordal Iechyd Mewnfudo yn daladwy.

Dysgwch fwy am y Fisa Gweithiwr Medrus yma:
Fisa Gweithiwr Medrus

Gweler rhestr o sefydliadau gyda Thrwydded Noddwr y Swyddfa Gartref yma:
Cofrestr o Noddwyr â Thrwydded

Gweler y rhestr o alwedigaethau cymwys a lefelau cyflog priodol yma:
Rheolau mewnfudo: Atodiad Alwedigaethau Medrus

Dysgwch fwy am Ordal Iechyd Mewnfudo yma:
Talu am ofal iechyd yn y DU fel rhan o'ch cais mewnfudo

## Categorïau eraill

Mae Rheolau Mewnfudo'r DU hefyd yn ymgorffori nifer o gategor-ïau i fodloni amgylchiadau unigol a/neu'r teulu.

Darganfyddwch wybodaeth gyffredinol am fisâu a llwybrau eraill yma:
Swyddfa Fisâu a Mewnfudo'r DU

# Diffiniadau, Acronymau a Chyfieithiadau

## Consesiwn Gweithiwr Creadigol
Creative Worker Concession

Llwybr lle gall artistiaid sy'n Wladolion Heb Fod Angen Fisa ddod mewn i'r DU heb fod angen gwneud cais am fisa o dramor, a heb fod gorfod talu unrhyw ffioedd mewn perthynas â fisa wrth gyrraedd. Rhaid iddynt bodloni holl ofynion cymhwyso Fisa Gweithiwr Creadigol eraill, gan gynnwys y gofyniad Tystysgrif Nawdd, a bod eu cyfnod o nawdd yn y DU ddim mwy na 3 mis.

## CTA: Ardal Deithio Gyffredin
Common Travel Area

Mae cytundeb ar wahân rhwng y DU, Iwerddon ac ynysoedd Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw a elwir yn Ardal Deithio Gyffredin (CTA). O dan yr CTA, gall dinasyddion Prydeinig ac Iwerddon symud yn rhydd a byw yn y naill wlad neu'r llall, a chael hawliau a breintiau cysylltiedig, gan gynnwys yr hawl i weithio, astudio a phleidleisio mewn rhai etholiadau, yn ogystal â chael budd-daliadau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd.

Dysgwch fwy am yr Ardal Deithio Gyffredin yma:
Canllaw'r Ardal Deithio Gyffredin: Hawliau dinasyddion Prydeinig ac Iwerddon

## EU: Undeb Ewropeaidd
European Union

Undeb gwleidyddol ac economaidd o 27 wlad yw'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n gweithredu marchnad fewnol (neu sengl) sy'n caniatáu symudiad rhydd o nwyddau, cyfalaf, gwasanaethau a phobl rhwng gwladwriaethau'r aelodau.

Gweler rhestr o wledydd yr EU a'r EEA yma:
Gwledydd yn yr EU a'r EEA

# Definitions and Acronyms

→ **EEA: Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd**
European Economic Area

Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys gwledydd yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy. Mae'r gwledydd yma'n rhan o'r farchnad sengl.

Mae'r Swistir hefyd yn rhan o'r farchnad sengl, er nid yw'n aelod o'r EU neu'r EEA. Golygir hyn fod gan bobl y Swistir yr un hawliau a rhai'r EEA i fyw a gweithio yn y DU.

→ **Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid**
Youth Mobility Scheme Visa

A frontier worker is a European Union (EU), European Economic Area (EEA) or Swiss citizen who is employed or self-employed in the UK but living elsewhere.

→ **Fisa Gweithiwr Creadigol**
Creative Worker Visa

Fisa gwaith y gellir ei rhoi i artist sydd wedi cael cynnig gwaith yn y DU fel gweithiwr creadigol, fel actor, dawnsiwr, cerddor neu aelod o griw ffilm, ac sy'n bodloni meini prawf penodol eraill.

→ **Fisa Gweithiwr Medrus**
Skilled Worker Visa

Fisa gwaith hirdymor y gellir ei rhoi i artist sydd wedi cael cynnig swydd fedrus yn y DU, sydd wedi cael ei gyflogi gan Noddwr Trwyddedig, ac sy'n bodloni meini prawf penodol eraill.

Ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig.

# Definitions and Acronyms

→ **Fisa Talent Fyd-Eang**
Global Talent Visa

Fisa gwaith y gellir ei ddyrannu i artist sy'n 'dalent eithriadol' neu sy'n dangos 'addewid eithriadol'.

→ **Gweithiwr Cyffiniau**
Frontier Worker

Fisa gwaith y gellir ei ddyrannu i artist sy'n 'dalent eithriadol' neu sy'n dangos 'addewid eithriadol'.

→ **Gwladolion Fisa**
Visa National

Dyma wladolion o dramor sydd ar y Rhestr Gwladolion Fisa ac sydd angen Fisa er mwyn ymweld â'r DU.

Gweler y rhestr o genhedloedd Gwladolion Fisa yma: Rheolau Mewnfudo Atodiad Ymwelydd: Rhestr Fisa Genedlaethol

→ **Gwladolion Heb Fod Angen Fisa**
Non-Visa National

Pobl o wlad tramor nad ydynt ar y Rhestr Gwladolion Fisa ac sydd heb fod angen fisa i ymweld â'r DU fel Ymwelydd Arferol.

Gweler y rhestr o genhedloedd Gwladolion Fisa yma (rydych chi'n Wladolyn Heb Fod Angen Fisa os **nad ydych ar y rhestr yma**): Rheolau Mewnfudo Atodiad Ymwelydd: Rhestr Fisa Genedlaethol

# Definitions and Acronyms

## Noddwr Trwyddedig
Licenced Sponsor

Sefydliad sydd wedi ei gofrestru gyda Thrwydded Noddi'r Swyddfa Gartref, a all aseinio Tystysgrif Nawdd i ymgeiswyr ar gyfer y Fisa Gweithiwr Medrus neu Fisa Gweithiwr Creadigol.

Gweler rhestr o sefydliadau gyda Thrwydded Noddwr y Swyddfa Gartref yma: Cofrestr o Noddwyr â Thrwydded

## PFF: Gŵyl Ddidrwydded
Permit Free Festival

Gŵyl sydd ar restr Gwyliau Didrwydded, lle gall wladolion tram-or sy'n ymweld â'r DU berfformio a chael eu talu am eu hym-weliad.

Gweler y rhestr o Wyliau Didrwydded yma: Atodiad Ymwelydd Rheolau Mewnfudo: Rhestr Gwyliau

Dysgwch fwy am ymgeisio i ddod yn Ŵyl Ddidrwydded yma: Sut i wneud cais i gael eich cynnwys ar restr y Gwyliau Didrwydded

## PPE: Ymrwymiad Am Dâl a Ganiateir
Permitted Paid Engagement

Taith neu ddigwyddiad yn y DU lle gall artistiaid tramor cenedlaethol ddod i'r DU am hyd at fis i wneud gwaith penodol am dâl ym maes eu harbenigedd.

# Definitions and Acronyms

### Rheolau Mewnfudo'r DU
UK Immigration Rules

Darnau allweddol o gyfraith mewnfudo'r DU sy'n rheoli'r modd gall gwladolion tramor ymweld a gweithio yn y DU, fel y gwelir ar wefan llywodraeth Swyddfa Gartref y DU ar fewnfudo.

Dysgwch fwy am Reolau Mewnfudo'r DU yma: Rheolau Mewnfudo

### Tystysgrif o Ardystiad
Certificate of Endorsement

I artistiaid sy'n ymgeisio am y Fisa Talent Fyd-Eang. Ceir tystysgrif a roddir gan 'gorff cymwys penodedig' sector-benodol (fel arfer Cyngor Celfyddydau Lloegr), ar ôl i'r sefydliad adolygu tystiolaeth yr artist a chadarnhau fod yr artist yn 'dalent eithriadol' neu ei fod yn dangos 'addewid eithriadol'.

### Tystysgrif Nawdd
Certificate of Sponsorship

Ar gyfer artistiaid sy'n ymgeisio ar gyfer y Fisa Gweithiwr Medrus neu'r Fisa Gweithiwr Creadigol. Y dystysgrif a roddir gan gyflogwr y DU sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r gyflogaeth a gynigir i'r artist.

### UKVI: Swyddfa Fisâu a Mewnfudo'r DU
UK Visas and Immigration

Mae'r Swyddfa Fisâu a Mewnfudo'r DU yn rhan o Swyddfa'r Gartref. Mae'n gyfrifol am system fisâu y DU.

Dysgwch fwy am yr UKVI yma: Swyddfa Fisâu a Mewnfudo'r DU: Amdanom Ni

# Gwybodfan Celf y DU

Mae Gwybodfan Celf y DU yn fenter sy'n datblygu ac yn rhannu adnoddau rhad ac am ddim i'ch arwain drwy rai o'r heriau gweinyddol o weithio ar draws ffiniau; a chefnogi artistiaid rhyngwladol sy'n dod i'r DU ac yn gadael y DU at ddibenion a gwaith creadigol.

Ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig.

Partneriaid Gwybodfan Celf y DU

wales arts international celfyddydau rhyngwladol cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

The Scottish Government Riaghaltas na h-Alba

CREATIVE SCOTLAND ALBA | CHRUTHACHAIL

arts council of Northern Ireland

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Cyfraniadau i'r canllaw hwn oddi wrth:

LATITUDE LAW

Newfields>>

tamizdat